


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Powys

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 405A2014

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn wedi'i baratoi ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Colin Davies a Justine Morgan dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Ymatebodd y Cyngor yn dda i faterion a godwyd gan reoleiddwyr drwy hybu gwelliant yn ei wasanaethau addysg a'i wasanaethau cymdeithasol ac mae wedi sicrhau gwelliant sylweddol yn ei berfformiad o safbwynt ailgylchu gwastraff, ond methodd â chyrraedd targedau allweddol ar gyfer gweithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg 7

Mae trefniadau craffu cadarn a threfniadau gwell ar gyfer rheoli perfformiad ac adrodd yn ei gylch yn datblygu diwylliant o hunanwerthuso yn y Cyngor, ond ni chaiff y diwylliant hwnnw ei adlewyrchu'n llawn yn yr hunanasesiad blynyddol 13

Mae'r modd y mae'r Cyngor yn cynllunio ar gyfer gwella a'i drefniadau ar gyfer hybu gwelliant yn gadarn o safbwynt y rhan fwyaf o agweddau 15

Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15 20

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 21

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Bowys a Chyngor Sir Powys 22

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 24

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Powys 27

# Adroddiad cryno ac argymhellion

## Crynodeb

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ac ar waith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau Cyngor Sir Powys (y Cyngor) i ddarparu a gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2012-13, a'i waith i gynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14 a, chan ystyried y rhain, daw i gasgliad o ran pa un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Daethom i'r casgliad, yn 2012-13, bod y Cyngor wedi ymateb yn dda i faterion a godwyd gan reoleiddwyr drwy hybu gwelliant yn ei wasanaethau addysg a'i wasanaethau cymdeithasol a'i fod wedi sicrhau gwelliant sylweddol yn ei berfformiad o safbwynt ailgylchu gwastraff, ond ei fod wedi methu â chyrraedd targedau allweddol ar gyfer gweithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae'r Cyngor yn sicrhau gwelliant yn ei wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc.
- Mae'r Cyngor yn cynnal perfformiad cadarn ym maes gwasanaethau plant, ac mae gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion bellach yn symud i'r cyfeiriad cywir.
- Mae'r Cyngor wedi sicrhau gwelliant sylweddol yn ei berfformiad o safbwynt ailgylchu ac mae wrthi'n gweithio i wella effeithiolrwydd ei wasanaethau rheoli gwastraff o ran cost.
- Unwaith eto eleni, roedd y Cyngor yn hwyr yn cyflwyno ei Adroddiad Monitro Blynyddol yng nghyswllt ei Gynllun Iaith Gymraeg; nid yw wedi llwyddo i gyrraedd rhai o'r targedau ac nid oes fforwm lefel uchel yn bodoli i drafod, hyrwyddo a herio'r modd y caiff y cynllun iaith ei weithredu.

3 Yn ogystal, nodwyd y canlynol: Mae trefniadau craffu cadarn a threfniadau gwell ar gyfer rheoli perfformiad ac adrodd yn ei gylch yn datblygu diwylliant o hunanwerthuso yn y Cyngor, ond ni chaiff y diwylliant hwnnw ei adlewyrchu'n llawn yn yr hunanasesiad blynyddol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau ar gyfer hunanwerthuso perfformiad gwasanaethau a hunanwerthuso cynnydd o safbwynt cyflawni ei amcanion gwella, ond ni chaiff y gwelliant hwnnw ei adlewyrchu'n llawn yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol i ddinasyddion;
- Mae gan y Cyngor drefniadau craffu cadarn y mae'n eu defnyddio'n effeithiol i gynllunio a chyflawni gwelliannau; ac
- mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o safbwynt cyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau.

4 Yn olaf, cafwyd gennym, yn ystod 2013-14, bod y modd y mae'r Cyngor yn cynllunio ar gyfer gwella a'i drefniadau i hybu gwelliant yn gadarn o safbwynt y rhan fwyaf o agweddau. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio ar gyfer gwella dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ac mae'n cymryd camau i gryfhau ei drefniadau i fonitro cynnydd ac adrodd yn ei gylch ar sail ei amcanion gwella;
- mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o safbwynt gweithredu'r argymhellion a wnaed gan ei reoleiddwyr, er bod angen trefniadau mwy cadarn i sicrhau bod yr argymhellion hynny, ac argymhellion sy'n deillio o waith archwilio a chraffu mewnol, yn cael eu crynhoi a'u monitro'n benodol wrth reoli a sicrhau gwelliant; ac
- mae'r Cyngor yn parhau i reoli ei sefyllfa ariannol yn gadarn ac yn gyfrifol ac mae'n datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'r her ariannol sylweddol y mae'n ei hwynebu yn y tymor canolig.

5 Gan ystyried yr uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

## Argymhellion

6 Nid ydym yn cyflwyno unrhyw argymhellion newydd eleni, ac mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud o safbwynt mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn ein hadroddiadau blaenorol. Mae'r cynigion hynny ar gyfer gwella wedi'u nodi yn ein llythyrau asesiad gwella a gyflwynwyd i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'r llythyrau hyn ar gael ar ein gwefan: www.wao.gov.uk.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan y Mesur, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Mae'r gwaith hwn wedi'i gyflawni gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, daw'r adroddiad i gasgliad o ran pa un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Ymatebodd y Cyngor yn dda i faterion a godwyd gan reoleiddwyr drwy hybu gwelliant yn ei wasanaethau addysg a'i wasanaethau cymdeithasol ac mae wedi sicrhau gwelliant sylweddol yn ei berfformiad o safbwynt ailgylchu gwastraff, ond methodd â chyrraedd targedau allweddol ar gyfer gweithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg

### Mae'r Cyngor yn sicrhau gwelliant yn ei wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc

11 Yn dilyn ei arolygiad o wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc ym mis Chwefror 2011, nododd Estyn fod angen i'r Cyngor gael ymweliad monitro arall a chynhaliwyd yr ymweliad hwnnw ym mis Hydref 2012. Canfu Estyn nad oedd digon o gynnydd wedi'i wneud yng nghyswllt ei argymhellion, a gosododd y Cyngor yn y categori ar gyfer awdurdodau y mae angen iddynt wella'n sylweddol. Cytunwyd ar gynllun monitro'n dilyn hynny, a chynhaliwyd yr ymweliad monitro cyntaf ym mis Hydref 2013 er mwyn adolygu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor. Cyhoeddodd Estyn ganlyniad ei ymweliad ym mis Tachwedd 2013 a chaiff ei ganfyddiadau eu crynhoi ym mharagraffau 12 i 16.

12 Ers ymweliad monitro Estyn ym mis Hydref 2012, mae newid a gwelliant wedi digwydd yn gyflym ar lefel gorfforaethol ac ar lefel y Gwasanaeth Ysgolion.

13 Yn dilyn yr ymweliad monitro, cymerodd aelodau etholedig a'r prif weithredwr gamau ar unwaith i sicrhau newidiadau ar lefel gorfforaethol ac ar lefel gwasanaeth er mwyn gwella canlyniadau i ddysgwyr. Yn benodol, bu iddynt gydnabod bod angen gwelliannau brys yn y gwaith cynllunio strategol, hunanwerthuso a rheoli perfformiad a gâi ei gyflawni yng nghyswllt gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc. Cymerodd y prif weithredwr gamau buan a phendant i gael gwared ar y ffactorau a oedd yn rhwystro cynnydd. Cysylltodd y Cyngor â Chyngor Sir Ceredigion i drafod cyfleoedd i gydweithredu er mwyn sicrhau bod gwelliant yn digwydd yn gyflym. O ganlyniad, sicrhaodd y Cyngor drefniadau cydweithredu effeithiol ac mae wedi rhoi'r trefniadau hynny ar waith yn llwyddiannus.

14 Yn ystod y cyfnod hwn, cymerodd y prif weithredwr rôl statudol cyfarwyddwr addysg a bu Cyngor Sir Ceredigion yn arwain y broses wella ochr yn ochr ag uwch-reolwyr Gwasanaeth Ysgolion Powys. Mae cynnwys swyddogion o Geredigion yn y broses wella wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor, y Gwasanaeth Ysgolion ac ysgolion yr awdurdod. Mae cynnwys y swyddogion hynny yn y broses wedi galluogi'r Cyngor i ad-drefnu'r gwasanaeth yn llwyr er mwyn sicrhau gwelliant cynaliadwy.

15 Cafodd llawer o'r gwaith hwn ei sbarduno wrth i fframwaith cynhwysfawr a chadarn ar gyfer cynllunio ac atebolrwydd gael ei gyflwyno o Geredigion. Mae'r fframwaith yn cynnwys cynlluniau manwl ar sawl lefel, o gynlluniau datblygiad personol i gynlluniau gwasanaeth a chynlluniau busnes. Mae gan yr holl gynlluniau swyddogion cyfrifol a enwebwyd, ac maent i gyd yn cyfrannu i gynllun busnes y gwasanaeth addysg, sy'n cynnwys cynllun gweithredu ôl-arolwg Estyn. Caiff y fframwaith ei ategu gan strwythur y cytunwyd arno ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r cabinet a gweithgorau craffu ar berfformiad, ac mae dyddiadau adolygu chwarterol wedi'u nodi ar gyfer pob cynllun.

16 Erbyn hyn, mae mwy o lawer o dryloywder yn perthyn i waith y gwasanaeth a'r modd y mae'n cyfathrebu ag ysgolion. Mae'r Cyngor wedi gwella'r modd y mae'n ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth wneud ei benderfyniadau. Ym mis Hydref 2012, er bod yr uwch-swyddogion ac aelodau etholedig allweddol yn deall yr heriau yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu, roedd y cynnydd a gâi ei wneud o safbwynt mynd i'r afael â'r heriau hynny'n rhy araf. Mae'r ddealltwriaeth a geir o'r heriau a'r diffygion yn llawer mwy trylwyr erbyn hyn. Mae swyddogion ac ysgolion i gyd wedi dangos eu bod yn sylweddoli bod angen gwella a'u bod yn barod i weithio tuag at gyflawni hynny.

17 Cynhaliodd Estyn ymweliad monitro arall ym mis Mai 2014 er mwyn adolygu'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud o safbwynt gwella ysgolion ac o safbwynt anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn nad oes angen mwyach i'r Cyngor wella'n sylweddol, ac mae'n dileu'r angen am weithgarwch dilynol mewn perthynas ag ef.

## Mae'r Cyngor yn cynnal perfformiad cadarn ym maes gwasanaethau plant, ac mae gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion bellach yn symud i'r cyfeiriad cywir

18 Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd AGGCC *Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013* ar gyfer Powys ac mae'r ddogfen ar gael ar wefan yr arolygiaeth: www.aggcc.org.uk. Caiff canfyddiadau AGGCC eu crynhoi ym mharagraffau 19 i 25.

19 Drwy gydol 2012-13 bu'r Cyngor yn rhannu Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol â Chyngor Sir Ceredigion. Erbyn hyn, mae'r Cyngor wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r trefniant hwnnw ac mae wedi penodi cyfarwyddwr parhaol ar wahân ar gyfer Powys yn unig. Un her o bwys fydd yr angen i ymateb i bwysau cyllidebol heb fudd yr arbedion effeithlonrwydd a allai fod wedi deillio o broses uno. Fodd bynnag, bydd y ddau gyngor yn parhau i gydweithredu mewn nifer o wahanol ffyrdd er mwyn arbed arian a gweithio'n fwy effeithlon.

20 Nododd AGGCC fod adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn adlewyrchu'r gwaith y mae angen ei wneud i wella gwasanaethau i oedolion a'i fod yn rhoi tystiolaeth o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i gyflawni hynny. Mewn ymateb i ganfyddiadau beirniadol adolygiad a gynhaliwyd ar y cyd gan AGGCC a Swyddfa Archwilio Cymru yn 2011-12, mae'r Cyngor wedi rhoi llawer o sylw i wella gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion. Mae'r Cyngor wedi sicrhau bod y meysydd a nodwyd ar gyfer gwella ac argymhellion yr adolygiad wedi'u hymgorffori mewn cynlluniau gwella gwasanaeth, ac mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd ar sail y rheini.

21 Cadarnhaodd arolygiad/adolygiad dilynol gan AGGCC o wasanaethau i oedolion ym mis Mawrth 2013 fod cynnydd yn cael ei wneud a bod y gwasanaeth yn symud i'r cyfeiriad cywir. Mae perfformiad yn erbyn dangosyddion cenedlaethol wedi'i gynnal i raddau helaeth, er gwaetha'r galw cynyddol am wasanaethau.

22 Yn ôl AGGCC, mae mwy o integreiddio â'r sector iechyd yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu, ac mae meddygon teulu'n deall rôl gweithwyr cymdeithasol yn llawer gwell. Yn ogystal, mae arweinyddiaeth gydlynol a newid cadarnhaol o ran diwylliant, yn enwedig ym maes gwasanaethau i oedolion, yn helpu i gynnal gwelliannau i wasanaethau. Mae gwaith cyfathrebu cyson a chlir ynghyd ag arweinyddiaeth well wedi arwain at ymgysylltu gwell â'r staff, er bod angen gwneud rhagor o waith.

23 Mae gwasanaethau i blant wedi cynnal eu perfformiad, a oedd eisoes yn gadarnhaol, drwy gydol 2012-13. Mae cryfderau'n perthyn i'r modd y caiff gwasanaethau rheng flaen eu darparu, er enghraifft o safbwynt amseroldeb prosesau gwneud penderfyniadau, ansawdd asesiadau a gwaith a wneir mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Mae gwelliant yn amlwg ar draws nifer o ddangosyddion perfformiad yn 2012-13. Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn parhau i ddarparu fframwaith strategol cadarn i wasanaethau plant weithio ynddo, ochr yn ochr ag asiantaethau partner. Yn ogystal, nododd AGGCC fod sefydlogrwydd ac amlygrwydd yr uwch dîm rheoli wedi sicrhau bod gwasanaethau i blant yn parhau i gael blaenoriaeth, er gwaetha'r gystadleuaeth am adnoddau o gyfeiriad gwasanaethau i oedolion.

24 Nododd AGGCC y risgiau posibl canlynol:

- Ymdrin â'r heriau ariannol a gorwariant o £2.8 miliwn ym maes gwasanaethau i oedolion. Mae'r Cyngor yn cydnabod anwadalrwydd y gyllideb ym maes gwasanaethau i oedolion a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwtogi cyllid iechyd ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu.
- Cynnal digon o fomentwm er mwyn trawsnewid gofal cymdeithasol i oedolion, yn enwedig yng ngoleuni trefniadau cydweithredu.
- Sicrhau bod yr amryw drefniadau cydweithredu'n cael eu llywodraethu a'u goruchwylio'n effeithiol, yn enwedig lle gallai ffiniau byrddau iechyd, sy'n wahanol, achosi problemau.
- Trefnu swyddogaethau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar sail ranbarthol.

25 Yn ogystal, nododd AGGCC y meysydd arfer da canlynol:

- trefniadau partneriaeth cryf ym maes gwasanaethau i blant, a ategir gan y panel atebion adnoddau lleol a phartneriaeth plant a phobl ifanc sy'n gadarn ac yn aeddfed; a
- gwaith ymgysylltu ac ymgynghori ag asiantaethau partner ac ymrwymiad pawb i wella gwasanaethau i bobl, a sefydlwyd drwy ddefnyddio digwyddiadau herio.

## Mae'r Cyngor wedi sicrhau gwelliant sylweddol yn ei berfformiad o safbwynt ailgylchu ac mae wrthi'n gweithio i wella effeithiolrwydd ei wasanaethau rheoli gwastraff o ran cost

26 Mae rheoli gwastraff yn un o'r gwasanaethau sy'n cyfrannu at amcan gwella'r Cyngor ar gyfer mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Nod y Cyngor yw trawsnewid y gwasanaeth gwastraff yn wasanaeth ailgylchu a lleihau'r gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Er iddo wneud cynnydd da yn ystod 2012-13, methodd y Cyngor o drwch blewyn â chyrraedd y targed cenedlaethol, sef ailgylchu 52 y cant o'i wastraff erbyn mis Mawrth 2013, wrth iddo lwyddo i ailgylchu 50.9 y cant ohono. Roedd hynny'n golygu bod Powys yn yr 16fed safle o blith 22 o gynghorau yng Nghymru, ac mae'n golygu mai Powys oedd yr awdurdod a oedd wedi gwella fwyaf yng Nghymru yn ystod y cyfnod dan sylw. Gwelwyd bod nifer y tunelli o wastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi (a'r costau cysylltiedig) wedi gostwng yn gyson, sy'n foddhaol, ond gwelwyd hefyd bod hynny ychydig yn brin o'r targed yr oedd y Cyngor wedi'i osod iddo ei hun ar gyfer 2012-13. Mae'r Cyngor yn deall y rhesymau dros y tangyflawni hwn ac mae'n cymryd camau priodol i fynd i'r afael â nhw.

27 Mae'r ffaith bod pobl yn cael gwasanaeth casglu gwastraff bwyd a deunydd ailgylchu sych bob wythnos ar stepen eu drws a bod unrhyw wastraff sy'n weddill yn cael ei gasglu bob pythefnos yn annog rhagor o bobl i ailgylchu. Erbyn hyn, mae 85 y cant o gartrefi'n cael gwasanaeth ailgylchu ar stepen eu drws, sy'n rhagori ar y targed o 80 y cant a osodwyd gan y Cyngor ar gyfer mis Mawrth 2013. Mae ystod o weithgarwch addysgu a hyrwyddo'n helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, ynghyd â gwaith ar leihau gwastraff. Mae'r Cyngor wedi adolygu dosbarthiad daearyddol Canolfannau Gwastraff o'r Cartref ac Ailgylchu er mwyn sicrhau eu bod mor hygyrch ag sy'n bosibl i'r trigolion. Mae hefyd wedi prynu safleoedd newydd ac wedi ailosod gwaith ar dendr arnynt er mwyn cael mwy o reolaeth ar eu perfformiad. Yn benodol, mae dwy Ganolfan Gwastraff o'r Cartref ac Ailgylchu yn methu â chyrraedd targed y Cyngor, sef ailgylchu 75 y cant o'r gwastraff y maent yn ei brosesu. Mae'r Cyngor yn monitro contractau'n ofalus ac yn aildrafod eu telerau, lle bo hynny'n bosibl, er mwyn sicrhau perfformiad Canolfannau Gwastraff o'r Cartref ac Ailgylchu. Mae llawer o'r contractau'n hen ac nid ydynt yn cynnwys cymhellion i ailgylchu, sy'n golygu bod perfformiad gwahanol safleoedd yn amrywio'n sylweddol. Fodd bynnag, bydd adnewyddu contractau er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys cosbau ariannol llymach am dangyflawni yn ychwanegu'n sylweddol at gostau, ac nid yw'r Cyngor wedi penderfynu o hyd sut y mae'n bwriadu datrys hynny ar adeg pan fo cyllidebau'n dynn iawn.

28 Mae methiant blaenorol i fynd i'r afael yn ddigonol â materion ym maes iechyd a diogelwch yn golygu bod y gwaith o gyflwyno cerbydau amlbwrpas arbenigol ar gyfer casglu deunydd ailgylchu ar stepen y drws dros flwyddyn ar ei hôl hi. Mae hynny wedi effeithio ar berfformiad y Cyngor o safbwynt ailgylchu ac mae wedi ychwanegu'n sylweddol at gostau gwasanaethau. Cyfrannodd dibyniaeth ar drefniadau casglu llai effeithlon, a'r angen i logi cerbydau eraill yn y cyfamser, at orwariant o £1 filiwn yn y gyllideb yn 2012-13. Mewn ymateb, mae'r Cyngor erbyn hyn wedi cryfhau ei ddull o gynllunio ar gyfer gwella ac mae ganddo ddull mwy trwyadl o reoli risg a rheoli prosiectau. Mae rhaglen wella gynhwysfawr ar waith, a cheir arweinyddiaeth wleidyddol gryf. Caiff y gwaith o gynllunio ar gyfer gwella ei ategu gan fwrdd prosiect sy'n cynnwys cynrychiolwyr o ystod eang o wasanaethau cysylltiedig. Ceir targedau clir er mwyn gwella perfformiad a gwella effeithiolrwydd y gwasanaeth o ran cost. Mae gan y gwasanaeth broffil uchel o safbwynt gwleidyddol. Mae sicrhau bod gweithgorau craffu'n cael eu cynnwys yn rhagweithiol er mwyn herio penderfyniadau a monitro cynnydd wedi ychwanegu gwerth mewn nifer o feysydd, er enghraifft o safbwynt caffael cerbydau, dosbarthiad Canolfannau Gwastraff o'r Cartref ac Ailgylchu, ac ystod o weithgareddau addysgu a hyrwyddo.

29 Mae costau'r gwasanaeth yn gymharol uchel, ac un o'r ffactorau allweddol sy'n sbarduno'r rhaglen wella yw'r angen i wella effeithiolrwydd cyffredinol y gwasanaeth o ran cost. Bydd y gwaith o gyflwyno cerbydau casglu arbenigol newydd a'r bwriad i gyflwyno dulliau gweithio mwy effeithlon yn cynorthwyo i sicrhau hynny. Mae'r Cyngor wedi nodi'r angen am dri o safleoedd crynhoi gwastraff, sydd wedi'u lleoli'n strategol, ar gyfer prosesu gwastraff yn effeithlon a'i drosglwyddo i fannau eraill. Sicrhawyd dau safle yn ne ac yng nghanol y sir, ac mae'r angen i sicrhau trydydd safle yn y gogledd yn parhau.

30 Mae'r Cyngor wedi bod yn ymwneud yn weithredol ers amser â Rhaglen Newid Gydweithredol Llywodraeth Cymru. Mae hynny wedi galluogi'r Cyngor i gael arbenigedd allanol i gefnogi ei agenda ar gyfer gwella, er enghraifft o safbwynt datblygu dull strategol o ymdrin â gwastraff masnachol, gosod contractau ar dendr a sicrhau cyllid ar gyfer eitemau sy'n gofyn am wariant cyfalaf, megis prynu safleoedd crynhoi gwastraff a Chanolfannau Gwastraff o'r Cartref ac Ailgylchu. Drwy gydweithio â Cheredigion, sicrhawyd contract ar y cyd ar gyfer prosesu gwastraff bwyd drwy Bartneriaeth Gwastraff Canol Cymru. Mae'r Cyngor yn meincnodi ei berfformiad a'i gostau â chynghorau eraill yng Nghymru a Lloegr, megis Conwy, Sir Fynwy, Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon. Mae'r Cyngor hefyd yn rhan o grŵp meincnodi Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynas â gwastraff masnachol. Mae'r Cyngor yn awyddus i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach a'i ddefnyddio i ddysgu a rhannu arfer da.

## Unwaith eto eleni, roedd y Cyngor yn hwyr yn cyflwyno ei Adroddiad Monitro Blynyddol yng nghyswllt ei Gynllun Iaith Gymraeg; nid yw wedi llwyddo i gyrraedd rhai o'r targedau ac nid oes fforwm lefel uchel yn bodoli i drafod, hyrwyddo a herio'r modd y caiff y cynllun iaith ei weithredu

31 Cafodd rôl y Comisiynydd ei chreu gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

32 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu a chynghori ynghylch gweithredu cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb cynghorau yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

33 Ar gyfer 2012-13, nododd y Comisiynydd fel a ganlyn: Bydd arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid ynglŷn â gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn cael ei gynnal yn ystod 2013-14. Mae grŵp wedi'i sefydlu er mwyn cynnal asesiadau o effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg. Daeth yr adroddiad monitro blynyddol ar weithredu'r cynllun iaith Gymraeg i law yn hwyr iawn eleni eto. O ganlyniad, nid yw'r broses fonitro wedi'i chwblhau. Nid yw'r targedau y nodwyd eu bod yn flaenoriaethau yn ystod proses fonitro'r llynedd wedi cael eu cyrraedd, h.y. sefydlu gwaelodlin ar gyfer nifer y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir, a chwblhau'r gwaith o gofnodi lefel sgiliau iaith y staff. Fodd bynnag, mae mwy o ddata ynghylch sgiliau iaith wedi'i gasglu ers y llynedd, sy'n cynrychioli 47.9% o'r gweithlu o gymharu ag 19.4%. Mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes fforwm lefel uchel yn bodoli i drafod a hyrwyddo materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg nac i graffu ar y modd y caiff y cynllun iaith ei weithredu. Roedd ailsefydlu'r broses graffu yn un o argymhellion y Comisiynydd y llynedd.

# Mae trefniadau craffu cadarn a threfniadau gwell ar gyfer rheoli perfformiad ac adrodd yn ei gylch yn datblygu diwylliant o hunanwerthuso yn y Cyngor, ond ni chaiff y diwylliant hwnnw ei adlewyrchu'n llawn yn yr hunanasesiad blynyddol

## Mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau ar gyfer hunanwerthuso perfformiad gwasanaethau a hunanwerthuso cynnydd o safbwynt cyflawni ei amcanion gwella, ond ni chaiff y gwelliant hwnnw ei adlewyrchu'n llawn yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol i ddinasyddion

34 Cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2012-13* (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2013 yn unol â gofynion statudol. Mae'r fersiwn lawn a chrynodeb dwyieithog ar gael ar wefan y Cyngor ac mae copi o'r crynodeb wedi'i ddosbarthu i bob cartref yng nghylchgrawn y Cyngor, sef *Barcud Coch*.

35 Mae'r Adroddiad a'r crynodeb yn rhoi darlun mwy teg a chytbwys o berfformiad na'r un a gafwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol, ac mae'n cydnabod agweddau gwannach yn ogystal ag agweddau cryfach ar berfformiad. Adroddir yn ddigonol ynghylch gwybodaeth am berfformiad yng nghyswllt y targedau a osodwyd, a lle bo'n briodol caiff y wybodaeth honno ei chymharu â chyfartaledd Cymru, er bod lle i egluro'n fanylach beth y mae'r wybodaeth honno'n ei olygu a beth y mae'r Cyngor wedi'i wneud yng ngoleuni'r wybodaeth. Mae rôl cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth wedi'i hintegreiddio'n dda mewn adroddiadau, er y gellid gwneud mwy i werthuso'r cyfraniad penodol y mae hynny'n ei wneud i wella, a fyddai'n helpu'r Cyngor i farnu ei effeithiolrwydd o ran cost.

36 Unwaith yn rhagor, fodd bynnag, methodd yr Adroddiad (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013) â chyflawni ei bwrpas, sef sicrhau bod dinasyddion yn cael darlun cydlynol o berfformiad y Cyngor a gwerthusiad clir o gynnydd tuag at gyflawni ei amcanion gwella. Er gwaetha'r sylfaen dystiolaeth ehangach, ceir gorddibyniaeth o hyd ar allbynnau rhifol, camau gweithredu a gwblhawyd a phrosesau sydd wedi'u gwella i ddangos y cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud.

37 Mae datblygiadau dilynol, yn enwedig camau i wella gwaith rheoli perfformiad a hunanwerthuso ym maes addysg, yn cael eu hymgorffori yn y fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol. Mae swyddogion yn dysgu o'r cynnydd a wnaed ym maes addysg ac yn defnyddio hynny i wella'r trefniadau corfforaethol ar gyfer hunanwerthuso perfformiad gwasanaethau. Mae model cyson ac effeithiol wedi'i ddatblygu i werthuso camau gweithredu a'u heffaith, a nodi gwaith pellach y mae angen ei wneud. Mae'r swyddogion sy'n gyfrifol am feysydd gwaith yn deall yn dda bod yn rhaid iddynt werthuso'n drwyadl y cynnydd a wnaed a'u bod yn atebol amdano. Mae'r dogfennau allweddol yn y model hwn, sef Gridiau Gwerthuso Perfformiad, yn cynnwys tystiolaeth a ddarperir i swyddogion ac aelodau gweithgorau craffu at ddibenion adolygu a herio bob chwarter. Dylai'r trefniadau gwell hyn ar gyfer asesu a gwerthuso perfformiad, ynghyd â data mwy cadarn am berfformiad a chynlluniau gwella mwy penodol, alluogi'r Cyngor i baratoi a chyhoeddi Adroddiad Perfformiad Blynyddol gwell o lawer ym mis Hydref 2014.

## Mae gan y Cyngor drefniadau craffu cadarn y mae'n eu defnyddio'n effeithiol i gynllunio a chyflawni gwelliannau

38 Bu'r Cyngor yn ymwneud yn gadarnhaol â'r prosiect cenedlaethol, Y Gyfnewidfa Dysgu Craffu, ac mae wedi gwneud newidiadau i'w drefniadau craffu o ganlyniad i hynny. Byddwn yn monitro effeithiolrwydd y newidiadau hynny yn ystod y flwyddyn sydd i ddod yn rhan o'n rhaglen waith ar gyfer asesu gwelliant.

39 Mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r swyddogaeth graffu'n effeithiol drwy sicrhau bod ei gynlluniau gwella blynyddol yn destun gwaith herio mewnol cadarn. Llwyddodd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion gweithgorau craffu i herio fersiwn ddrafft o *Gynllun Newid Powys 2013-16* mewn modd trylwyr ac ystyriol gan nodi llawer o gyfleoedd i egluro ei gynnwys. Cymerodd y Cyngor gamau i fynd i'r afael â'r materion a godwyd, naill ai drwy ddiwygio'r Cynllun drafft neu drwy gytuno i adlewyrchu'r sylwadau mewn cynlluniau dilynol. Mewn achosion lle bernid nad oedd camau o'r fath yn briodol, rhoddodd y swyddogion resymau i'r aelodau. Mae'r broses herio hon yn arfer da, a dylid sicrhau ei bod yn elfen barhaol yng nghalendr blaengynllunio'r Cyngor.

40 Ym mis Tachwedd 2013, nododd Estyn fod gwaith craffu a herio gan yr aelodau yn dda. Tynnodd Estyn sylw at y ffaith bod gweithgorau craffu'r Cyngor, sy'n ystyried gwahanol agweddau ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau, yn holi pobl yn drylwyr ac yn dwyn aelodau a swyddogion i gyfrif yn effeithiol. Mae'r swyddogion yn ymateb yn dda pan gânt eu herio gan weithgorau craffu ac maent yn gwneud newidiadau priodol. Mae'r Gweithgor Craffu ar Addysg wedi llunio adroddiad clir a defnyddiol iawn ar y cynnydd a wnaed o safbwynt gwella'r gwasanaeth addysg. Mae'r adroddiad hwn yn werthusol ac yn drylwyr ac mae'n cynnwys argymhellion clir i'r deiliad portffolio ar gyfer dysgu.

## Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o safbwynt cyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

41 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn archwilio ddiamod ynghylch datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor ar 30 Medi 2013, gan gadarnhau eu bod yn ddarlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Fodd bynnag, nododd nifer o broblemau a effeithiodd yn andwyol ar brydlondeb ac effeithlonrwydd y gwaith o archwilio a chymeradwyo datganiadau ariannol y Cyngor, ac adroddodd ynghylch y materion hynny. Mae'r Cyfarwyddwr Strategol - Adnoddau yn arwain adolygiad i nodi a gweithredu'r camau unioni angenrheidiol. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

# Mae’r modd y mae’r Cyngor yn cynllunio ar gyfer gwella a’i drefniadau ar gyfer hybu gwelliant yn gadarn o safbwynt y rhan fwyaf o agweddau

## Mae’r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio ar gyfer gwella dan y Mesur, ac mae’n cymryd camau i gryfhau ei drefniadau i fonitro cynnydd ac adrodd yn ei gylch ar sail ei amcanion gwella

42 Yn ein hasesiad o amcanion gwella’r Cyngor (sef *Meysydd allweddol ar gyfer gwella*) a’i gynllun gwella blynyddol (sef *Cynllun Newid Powys 2013-16*), daethom i’r casgliad fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella dan y Mesur a’i fod wedi gweithredu’n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae’r Cynllun yn well o lawer na fersiwn 2012-2015; mae’n fwy addas ar gyfer y sawl a fydd yn ei ddefnyddio, mae’n cynnwys llai o jargon ac mae’n mynd i’r afael yn foddhaol â’r rhan fwyaf o’r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi tynnu sylw’r Cyngor atynt yn y gorffennol.

43 Mae’r Cynllun yn darparu crynodeb o’r materion allweddol a godwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori ac mae’n gwneud defnydd da o adborth perthnasol er mwyn ategu meysydd allweddol unigol ar gyfer gwella; caiff y rhain eu nodi yn Atodiad 4. Mae’r Cynllun wedi’i seilio ar ganlyniadau gwaith ymgynghori drwy arolwg preswylwyr, arolwg pobl ifanc a phanel dinasyddion. Mae’r Cyngor wedi sicrhau eleni bod ei Gynllun ar ffurf sy’n fwy addas ar gyfer y sawl a fydd yn ei ddefnyddio. Mae ei ddiwyg yn dda, mae naws gyfoes yn perthyn iddo ac mae’n gwneud defnydd da o ffotograffau i ennyn diddordeb y darllenydd.

44 Mae’r Cynllun yn sicrhau cydbwysedd da rhwng bod yn fanwl a bod yn gryno. Mae’n canolbwyntio ar negeseuon lefel uchel, ond mae’n darparu cyfeiriadau tudalennau ar y we ar gyfer darllenwyr sydd am gael gwybodaeth fwy cynhwysfawr am ystod o faterion megis y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a’r Cynllun Iaith Gymraeg. Mae hefyd yn neilltuo tudalen lawn i egluro sut y gall dinasyddion gymryd rhan, ac mae’n nodi ystod o ffyrdd y gellir cysylltu â’r Cyngor, yn gofyn am adborth am y meysydd allweddol ar gyfer gwella ac yn annog y darllenwyr i awgrymu meysydd newydd. Caiff y Cynllun ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg ar wefan y Cyngor a’i hyrwyddo drwy erthyglau yn llythyr newyddion y Cyngor, *Barcud Coch*, a ddosberthir i bob cartref. Mae copïau caled ar gael mewn llyfrgelloedd er bod y Cyngor yn disgwyl i fwyafrif y darllenwyr weld y Cynllun ar y wefan; mae’n hawdd cael gafael ar y Cynllun o hafan y wefan a gellir ei lawrlwytho neu’i weld ar-lein ar ffurf e-lyfr hawdd ei ddarllen.

45 Mae ein gwaith archwilio ac asesu wedi nodi bod lle i gryfhau’r Cynllun o safbwynt un agwedd bwysig. Mewn mannau lle mae’r Cyngor yn defnyddio dangosyddion perfformiad (rhai statudol neu leol) fel mesurau llwyddiant, mae angen data sylfaenol am berfformiad a data am dargedau perfformiad er mwyn egluro maint y gwelliant y mae’r Cyngor yn ceisio ei gyflawni a sicrhau bod modd i waith monitro a gwerthuso perfformiad fod yn effeithiol. Yn fersiwn gyfredol y Cynllun, mae’r data angenrheidiol hwn ar goll o gyfran sylweddol o’r mesurau llwyddiant, a chafodd hynny ei nodi hefyd gan y broses herio fewnol.

46 Cyflwynodd y Cynllun Newid ar gyfer eleni fesurau llwyddiant newydd a mwy priodol; mae dros ddwy ran o dair o'r mesurau llwyddiant yn y Cynllun yn wahanol iawn i'r rhai a ddefnyddiwyd yn y Cynllun blaenorol (2012-13). O ganlyniad, nid oedd data sylfaenol dibynadwy ar gael, ac felly roedd y Cyngor yn gyndyn o osod targedau. Mae diffyg targedau penodol yn golygu nad yw maint uchelgais y Cyngor yn glir. Yn bwysicach na hynny, mae hefyd yn effeithio'n andwyol ar allu'r Cyngor i fonitro cynnydd yn effeithiol neu adnabod achosion o dangyflawni.

47 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn. Mae un o'r materion llywodraethu o bwys y mae'n adrodd yn ei gylch yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol diweddaraf yn adlewyrchu hynny'n glir: Rhaid i'r Cyngor wella ei hunanasesiad beirniadol ei hun ….. Bydd mwy o eglurder ynghylch ein canlyniadau'n golygu y bydd yn bosibl herio'n fwy parhaus a phenodol er mwyn gweld a yw'r canlyniadau hynny'n cael eu cyflawni. Felly, mae'r Cyngor yn cymryd camau i gryfhau ei bortffolio o fesurau llwyddiant, egluro ei dargedau a gwneud defnydd gwell o'r data sylfaenol sydd ganddo eisoes. Mae proses gynhwysfawr ar y gweill erbyn hyn i ddiweddaru'r mesurau llwyddiant a datblygu cynlluniau prosiect ar gyfer mentrau gwella unigol. Er mwyn cryfhau ei gynlluniau gwella ymhellach, a chydnabod strategaeth Llywodraeth Cymru, *Cydamcanu – Cydymdrechu*, mae'r Cyngor wedi ymgorffori ei gynllun corfforaethol ei hun mewn cynllun integredig sengl o'r enw *Cynllun Powys Yn Un 2014-2017*. Mae hwn yn gynllun ar gyfer newid rhwng pob un o'r partneriaid sy'n perthyn i Fwrdd Gwasanaethau Lleol Powys.

48 Byddwn yn adolygu cynnydd y Cyngor o safbwynt gwella ansawdd a chywirdeb ei ddata lleol am berfformiad, ac o safbwynt ceisio ymgysylltu'n ehangach â dinasyddion ynghylch ei waith cynllunio ar gyfer gwella, yn ystod ein cylch nesaf o waith asesu gwelliant.

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o safbwynt gweithredu'r argymhellion a wnaed gan ei reoleiddwyr, er bod angen trefniadau mwy cadarn i sicrhau bod yr argymhellion hynny, ac argymhellion sy'n deillio o waith archwilio a chraffu mewnol, yn cael eu crynhoi a'u monitro'n benodol wrth reoli a sicrhau gwelliant

49 Mae'r Cyngor yn gweithio i fynd i'r afael â llawer o'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u cyflwyno o'r blaen, ond mae angen gwneud mwy i sicrhau bod y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn gyson a'u bod yn hollol effeithiol.

50 Yn unol â'n hargymhellion a'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella, mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd drwy:

- sicrhau bod cynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwella'n canolbwyntio'n well ar ganlyniadau i ddinasyddion, a datblygu mesurau llwyddiant perthnasol;

- gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, ac mae'r cynnydd hwnnw wedi'i gydnabod gan AGGCC;
- parhau i ddatblygu rôl, rhaglen waith a thrylwyredd ei swyddogaeth graffu, ac mae'r cynnydd hwnnw wedi'i gydnabod gan Estyn;
- sicrhau bod cynlluniau gweithlu'n cael eu cwblhau gan wasanaethau, a'u bod yn cael eu crynhoi a'u monitro ar lefel gorfforaethol; a
- dan y Cynllun Datblygu Sefydliadol, gwella capasiti a gallu drwy waith a wneir ar y cyd â Phrifysgol De Cymru i ddatblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr, a chryfhau'r capasiti i reoli rhaglenni a phrosiectau.

51 Ym mis Hydref 2013, bu Estyn yn adolygu cynnydd y Cyngor o safbwynt gweithredu pump o argymhellion penodol yr oedd wedi'u gwneud o'r blaen, ac adroddodd fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da yng nghyswllt pob un ohonynt.

52 Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu trefniadau mwy cadarn er mwyn sicrhau bod pob un o'r camau gweithredu a argymhellir gan ei reoleiddwyr, a'r camau sy'n deillio o waith craffu mewnol, yn cael eu crynhoi a'u hymgorffori yn ei gynlluniau er mwyn i'r aelodau a'r uwch-swyddogion allu herio cynnydd yn effeithiol a dwyn y sawl sy'n gyfrifol am y camau gweithredu i gyfrif.

## Mae'r Cyngor yn parhau i reoli ei sefyllfa ariannol yn gadarn ac yn gyfrifol ac mae'n datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'r her ariannol sylweddol y mae'n ei hwynebu yn y tymor canolig

53 Yn dilyn y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2014-15 (a gyhoeddwyd ar 11 Rhagfyr 2013), nododd y Cyngor ddiffyg cyllid o £17.56 miliwn ar gyfer 2014-15, sy'n fwlch a fydd yn cynyddu dros gyfnod o dair blynedd i oddeutu £40 miliwn os na fydd y Cyngor yn lleihau ei gyllideb sylfaenol. Mae popeth yn awgrymu y bydd mesurau cynilo'n parhau hyd y gellir rhagweld, ac mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd angen iddo sicrhau gostyngiad pellach o £30 miliwn mewn costau yn ystod y cyfnod 2017-2020. Er gwaethaf y setliad grant heriol iawn gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2014-15 sy'n cynnwys cynnydd o 4.5 y cant yn y dreth gyngor. O'r diffyg o £17.56 miliwn a fydd yn weddill ar ôl cynyddu'r dreth gyngor, bydd £10.7 miliwn ohono'n cael ei gyllido o arbedion a nodwyd gan gyfarwyddiaethau. Ar gyfer 2014-15, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu elfen o gwtogi graddol yn ei ddull o sicrhau arbedion, ac mae pob cyfarwyddiaeth yn gyfrifol am ganran o'r targed ar gyfer arbedion. Fodd bynnag, ni fydd y dull gweithredu hwn yn cael ei ddefnyddio ar draws pob maes, a bydd rhai gwasanaethau'n cael eu gwarchod i raddau. Mae cynlluniau arbed y cyfarwyddiaethau wedi cael eu cymedroli a'u haddasu er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r arbedion arfaethedig a sicrhau

eu bod yn cael yr effaith leiaf posibl ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Nid yw'r Cyngor eto wedi nodi'r £7 miliwn arall o arbedion y mae angen eu sicrhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ond mae'n gweithio tuag at drawsnewid ac ailfodelu'r modd y mae'n darparu gwasanaethau yn hytrach na thorri gwasanaethau. Mae angen i'r Cyngor ddatblygu a gweithredu ei gynlluniau arbed yn gyflym os yw am ymdopi â'r her ariannol sylweddol y mae'n ei hwynebu yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac yn y tymor canolig.

54 Yn y tymor canolig, mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio dull mwy penodol o sicrhau arbedion, gan ddefnyddio ffrydiau trawsbynciol. Bydd y cynlluniau ar gyfer arbedion ariannol yn cael eu datblygu'n rhan o fframwaith Datganiad o Fwriad y Cyngor er mwyn sicrhau bod rheolaeth ariannol yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol a'r strategaethau a'r cyfeiriad a nodwyd yn y Datganiad o Fwriad. Mae'r themâu trawsbynciol a nodwyd hyd yma fel a ganlyn:

- sicrhau cynifer o ffrydiau incwm ag sy'n bosibl a nodi'r potensial ar gyfer ffrydiau incwm newydd;
- adolygu pob gwariant a gwaith caffael yng nghyswllt trydydd partïon;
- cynnal Adolygiad Comisiynu Gwasanaethau – gan ddefnyddio gwaith meincnodi a gwybodaeth am brisiau i wneud penderfyniadau deallus ynghylch comisiynu;
- cael gwared â rhai haenau o reolaeth;
- adolygu'r ddarpariaeth o ran trafnidiaeth, gyda'r bwriad o wella'r defnydd a wneir o gerbydau a lleihau costau prydlesu;
- adolygu swyddogaethau cymorth er mwyn nodi'r potensial i gyfuno swyddogaethau;
- galluogi gwasanaethau i wneud penderfyniadau deallus trwy ddefnyddio gwybodaeth well am reolaeth a chostau; a
- datblygu rhagor o sianelau electronig a sianelau ar-lein i ddefnyddwyr eu defnyddio.

55 Mae'r Cyngor wrthi hefyd yn datblygu'r modd y mae'n ymgysylltu â chymunedau, er mwyn nodi anghenion cymunedau a chynllunio dull wedi'i deilwra o ddarparu gwasanaethau lleol. Nod y gwaith hwn yw darparu gwasanaethau gwell i ddinasyddion am lai o gost. Bydd aelodau etholedig y Cyngor yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o helpu i lunio'r modd y caiff gwasanaethau cymunedol eu darparu. Mae dull comisiynu o'r fath, sy'n gysylltiedig â gwaith rheoli cymdogaethau, wedi cael ei dreialu'n llwyddiannus yn y Drenewydd.

56 Bwriedir i wariant cyfalaf barhau ar lefelau tebyg i'r hyn a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond bydd yn cael ei gyllido'n fwy helaeth â grantiau cyfalaf yn hytrach na thrwy brosesau ariannu.

57 Mae’r heriau ariannol cynyddol yn rhoi pwysau sylweddol ar swyddogion ac aelodau. Fodd bynnag, mae’r camau a gymerir, megis ailstrwythuro gwasanaethau cyllid a chymorth yn y Gyfarwyddiaeth Adnoddau, yn gwneud i ni deimlo’n hyderus bod y Cyngor yn ymdrechu i reoli ei sefyllfa ariannol yn gadarn ac yn gyfrifol. Byddwn yn parhau i fonitro sut y bydd y Cyngor yn datblygu ei gynigion manwl ar gyfer rheoli ei sefyllfa ariannol.

58 Ar hyn o bryd, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio iechyd ariannol awdurdodau, a’u dulliau o gyllidebu a chyflawni’r arbedion gofynnol, er mwyn darparu sicrwydd bod awdurdodau’n gydnerth yn ariannol. Bydd y gwaith hwn yn ystyried a oes gan awdurdodau ddulliau gweithredu cadarn ar waith i reoli’r gostyngiadau y maent yn eu hwynebu yn eu cyllidebau, er mwyn sicrhau sefyllfa ariannol sefydlog a fydd yn eu galluogi i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld. Mae’r gwaith hwn yn canolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15 ac ar gyflawni cyllidebau 2013-14. Bydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau’n gynnar yn 2014-15, a byddwn yn cyhoeddi’r canfyddiadau yn ystod ein cylch nesaf o waith asesu gwelliant.

## Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15

59 Ar sail y casgliadau a nodwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o fodloni gofynion y Mesur o safbwynt gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Bowys a Chyngor Sir Powys

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £299.8 miliwn y flwyddyn (2012-13). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,253 fesul trigolyn. Yn 2012-13, gwariodd y Cyngor £52.7 miliwn ar eitemau cyfalaf.

Yn 2012-13, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Powys oedd £1,168.28 y flwyddyn. Mae hynny'n gynnydd o 2.7 y cant ar y flwyddyn flaenorol. Mae 58.5 y cant o dai Powys yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 73 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 25 aelod o Gynghrair Annibynnol Powys
- 8 aelod o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru
- 6 aelod o Lafur Cymru
- 15 aelod o'r Grŵp Annibynnol
- 10 aelod o'r Ceidwadwyr Cymreig
- 7 aelod o'r Grŵp Anwleidyddol
- 2 heb fod yn aelodau o unrhyw blaid

Prif Weithredwr y Cyngor yw Jeremy Patterson. Y cyfarwyddwyr corfforaethol yw:

- Cyfarwyddwr Strategol Pobl – Amanda Lewis
- Cyfarwyddwr Strategol Lle – Paul Griffiths
- Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau – David Powell
- Cyfarwyddwr Newid a Llywodraethu – Nick Philpott

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Bowys yw:

- Russell George, Maldwyn, Ceidwadwyr Cymreig
- Kirsty Williams, Brycheiniog a Maesyfed, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Rebecca Evans, Simon Thomas, Joyce Watson a William Powell, Aelodau Rhanbarthol

Yr Aelodau Seneddol dros Bowys yw:

- Roger Williams, Democrat Rhyddfrydol
- Glyn Davies, Ceidwadwr

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun www.powys.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG. Ffôn: 01597 827460.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd David Jones
Arweinydd
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5JG

Annwyl Gynghorydd Jones

## Llythyr Archwilio Blynyddol 2012-13

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol fel yr Archwilydd Penodedig dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau ynghylch adrodd dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau sy'n ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r modd y mae'n defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau bod trafodion yn rheolaidd ac yn gyfreithlon a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu a pharhau i adolygu trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn mynnu fy mod yn:

- darparu barn archwilio am y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y modd y mae'n defnyddio adnoddau; a
- chyflwyno tystysgrif sy'n cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu'n unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 30 Medi 2013 cyflwynodd yr Archwilydd Penodedig farn archwilio ddiamod am y datganiadau cyfrifyddu gan ddatgan eu bod yn ddarlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi ei gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Adroddwyd ynghylch y materion allweddol a oedd yn codi o'r archwiliad o'r cyfrifon wrth aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ar 26 Medi 2013, a chyflwynir adroddiad manylach maes o law. Fodd bynnag, daethom ar draws problemau sylweddol wrth archwilio'r datganiadau ariannol, ac roedd y prif broblemau fel a ganlyn:

- diffyg gweithdrefnau cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd er mwyn cadarnhau bod y datganiadau ariannol a'r papurau gwaith ategol yn gwneud synnwyr;
- rhai achosion lle nad oedd y sail ar gyfer prisio asedau sefydlog yn dilyn y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol, a diffyg tystiolaeth i gefnogi'r sail ar gyfer prisio;
- adroddiadau anghywir ac anghyflawn ynghylch systemau'n cael eu darparu i gefnogi'r profion a gynhaliwyd gennym ar y ffigurau yn y datganiadau ariannol, a rhai o'r ffigurau heb eu hategu'n wreiddiol gan bapurau gwaith neu dystiolaeth; a
- diffyg cyfeiriad at drefniadau llywodraethu'n ymwneud â Chronfa Bensiwn Powys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Adroddwyd ynghylch y pwyntiau bwled uchod a chawsant eu trafod yn fanwl yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi. Yn anffodus, roedd yr anawsterau y daethpwyd ar eu traws yn golygu ein bod yn dal i gytuno ar ddiwygiadau i'r datganiadau ariannol ac yn dal i wirio dogfennau ategol ar y bore yr oedd y dogfennau'n cael eu llofnodi gan yr Awdurdod. O ganlyniad, roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn teimlo na chawsant yr amser y byddent wedi hoffi ei gael i ystyried y datganiadau ariannol diwygiedig, ac nid oedd modd iddynt weld ein hadroddiad a'n barn archwilio allanol cyn y cyfarfod. Mae'r Cyfarwyddwr Strategol – Adnoddau a benodwyd yn ddiweddar (Swyddog Adran 151) yn cynnal adolygiad o'r sefyllfa er mwyn darganfod beth y mae angen ei wneud i sicrhau nad yw'r problemau hyn yn digwydd eto yng nghyswllt cyfrifon y blynyddoedd sydd i ddod, a byddwn yn cydweithredu â'r adolygiad hwnnw.

Mae'r modd yr wyf wedi ystyried trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar waith archwilio'r cyfrifon, gan ddibynnu hefyd ar y gwaith a gyflawnwyd yn rhan o'r Asesiad Gwella dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Rwy'n fodlon yn gyffredinol bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle gellid gwneud gwelliannau, pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Un o’r heriau allweddol i Gyngor Sir Powys, yn yr un modd â llawer o Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, fydd mantoli’r gyllideb yn y tymor byr a’r tymor canolig. Ar gyfer 2014-2015, mae’r Cyngor wedi amcangyfrif bod angen gwerth tua £20 miliwn o arbedion i fantoli’r gyllideb. Mae’r cyfanswm hwn yn cynnwys gwerth £8.3 miliwn o arbedion sydd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig y cytunodd y Cyngor arno ym mis Mawrth 2013, a tharged arall sy’n golygu arbedion gwerth £11.7 miliwn nad oes cynlluniau wedi’u datblygu’n llawn ar eu cyfer eto.

Er i mi roi barn ddiamod ynghylch y datganiadau ariannol, ni ellir cwblhau’r archwiliad yn ffurfiol ac ni ellir cyflwyno tystysgrif archwilio nes bydd gwaith wedi’i gwblhau’n ffurfiol yng nghyswllt ymholiadau a oedd yn deillio o faterion a godwyd gan nifer o ‘chwythwyr chwiban’.

Fel y nodwyd uchod, daethom ar draws anawsterau sylweddol wrth archwilio’r datganiadau ariannol, a olygodd fod angen amser ychwanegol ar y staff archwilio i gyflawni eu gwaith. O ganlyniad, disgwylir y bydd y ffi archwilio flynyddol ar gyfer 2012-13 yn uwch na’r ffigur a fwriadwyd yn wreiddiol yn ein Hamlinelliad Archwilio Blynyddol. Mae’n debyg mai tua £23,500 fydd y ffi ychwanegol.

Yn gywir

John Herniman

Ar ran yr Archwilydd Penodedig
29 Tachwedd 2013

cc Jeremy Patterson, Prif Weithredwr
David Powell, Cyfarwyddwr Strategol – Adnoddau

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Powys

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn ei ddogfen sy'n dwyn y teitl *Cynllun Newid Powys 2013/16* sydd ar gael ar wefan y Cyngor www.powys.gov.uk. Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

| Meysydd allweddol ar gyfer gwella 2012-13 | Meysydd allweddol ar gyfer gwella 2013-14 |
|---|---|
| **Gofal a Lles –** Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid er mwyn sicrhau bod trigolion yn cael gwasanaethau iechyd a gofal da ac yn derbyn cymorth i aros yn eu cartrefi eu hunain cyn hired ag y maen nhw'n dymuno. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gan bobl mynediad at dai fforddiadwy o ansawdd da. | **Gofal a Lles**<br>**Gofal cymdeithasol i oedolion –** Mae gwasanaethau gofal saff a diogel yn hanfodol os ydym am hybu gallu ein preswylwyr mwyaf agored i niwed i fyw'n annibynnol yn ein cymunedau. Rydym am gael preswylwyr sy'n teimlo'n ffyddiog y byddant yn cael cymorth pan fydd arnynt ei angen, a phreswylwyr nad ydynt yn pryderu nac yn dioddef esgeulustod.<br>**Gwasanaethau i blant a theuluoedd –** Mae gwasanaethau saff a diogel yn hollbwysig ar gyfer lles plant, teuluoedd a'n cymunedau. Ein nod yw gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod gan breswylwyr fynediad i wasanaethau proffesiynol a fydd yn gwella ansawdd eu bywyd.<br>**Gweddnewid tai –** Er mwyn diogelu cymunedau hyfyw ar gyfer y dyfodol, mae angen i breswylwyr ym Mhowys gael mynediad i ddigon o dai o ansawdd boddhaol am gost sy'n ddigon isel er mwyn iddynt allu fforddio eu prynu neu, fel arall, eu rhentu gan y cyngor sir neu gan landlordiaid cymdeithasol neu breifat. |
| **Dysgu a'r Gymuned –** Byddwn yn adolygu ysgolion a'r ddarpariaeth ôl-16 i ddiwallu heriau sy'n codi yn sgil cwymp yn nifer y disgyblion. Byddwn yn codi safonau adeiladau ysgolion fel eu bod yn addas i'r diben gan sicrhau eu bod yn darparu profiadau addysgiadol o ansawdd uchel ar gyfer pob disgybl. Bydd cyfleusterau newydd yn cynnwys ystod o wasanaethau bro. | **Dysgu a'r gymuned –** Mae angen i breswylwyr o bob oed gael mynediad i addysg a chyfleoedd hyfforddi o'r safon uchaf mewn lleoliadau priodol er mwyn gwireddu eu potensial yn llawn a chryfhau cymunedau'r sir.<br>Mae ffyrdd o fyw iach a gweithgar ynghyd â diwylliant amrywiol a chyfoethog yn rhan annatod o gyfansoddiad y sir. Rydym am i ragor o bobl fod yn fwy gweithgar yn amlach a mwynhau cyfoeth treftadaeth ein sir. |

| Meysydd allweddol ar gyfer gwella 2012-13 | Meysydd allweddol ar gyfer gwella 2013-14 |
|---|---|
| **Adfywio –** Byddwn yn gwella lles economaidd trigolion Powys trwy sefydlu economi gadarn a chynaliadwy sy'n seiliedig ar gymunedau bywiog a chynhwysol. Bydd busnesau'n buddsoddi a thyfu yn y cymunedau hyn a bydd pobl am fyw, gweithio ag ymweld â hwy. | **Adfywio –** Dylai adfywio fod wrth wraidd popeth a wnawn. Mae'n ymwneud â meithrin a hybu rhinweddau unigryw'r sir a mynd i'r afael â'i gwendidau gyda'r bwriad o greu Powys fwy cydnerth a ffyniannus sydd â chyflogaeth gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. |
| **Newid yn yr Hinsawdd –** Fel arweinydd cymunedol byddwn yn ymateb i newid yn yr hinsawdd trwy leihau ein hol-troed carbon, yn newid sut rydym yn casglu ac yn trin sbwriel a sut rydym yn rheoli ein hadeiladau a cherbydau. Byddwn yn helpu eraill, nid yn unig trwy leihau eu hol-troed carbon ond trwy wneud yr holl wasanaethau ym Mhowys yn fwy cadarn. | **Y newid yn yr hinsawdd –** Mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar breswylwyr a busnesau ar draws y sir gyfan. Trwy weithio gyda'n gilydd byddwn yn lleihau ein hôl troed carbon ac yn cynyddu'r deunydd a gaiff ei ailddefnyddio neu'i ailgylchu a byddwn yn helpu i gyfyngu ar yr effaith fyd-eang a achosir. |
| **Y Cyngor –** Byddwn yn gweithio fel un cyngor, gan herio'r hyn rydym yn ei gyflwyno'n gyson a sut mae'n cael ei gyflwyno er mwyn gwella ansawdd ac i leihau costau. Byddwn yn gwneud hyn trwy trawsnewid y ffordd y mae ein gweithlu'n gweithio, yn cael ei dalu a'i ddatblygu; yn gwella sut rydym yn gyfathrebu gyda'r gymuned a'n gweithlu; yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill; yn defnyddio technoleg modern i wella cynhyrchiant a gwella'r ffordd rydym yn caffael nwyddau a gwasanaethau. | **Y Cyngor –** Trwy weithio gyda'n partneriaid byddwn yn ceisio darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol ar gyfer preswylwyr a busnesau. Trwy greu awdurdod proffesiynol symlach byddwn yn bodloni'r her o ddarparu gwasanaethau hyblyg o safon ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2012-13 ar gael yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol (*Ebrill 2012-2013*) sydd ar wefan y Cyngor www.powys.gov.uk.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk